# Y Fforwm Cyllideb Ysgolion

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 02/05/2023 |
| **Amser** | 9.30 tan 11.30 |
| **Lleoliad** | Microsoft Teams |
| **Aelodau** | Claire Armistead (CA - Ysgol Uwchradd y Rhyl, (Cadeirydd) Mark Hatch (MH) – Dinas Brân, Helen Vernon (HV) – Bodnant, Colette Owen (CO) – Esgobaeth, Neil Foley (NF) – Ysgol Uwchradd Prestatyn, Nicola Griffiths (NG) – Pendref, Rhona O'Neill (RO) – Tir Morfa, Glen Williams – Ysgol Uwchradd Dinbych (AW), Dafydd Davies (DD) – Ysgol Twm o'r Nant, Lindsey Davenport (LD) Is-Gadeirydd – Cynrychiolydd Llywodraethwyr Ysgolion Uwchradd, y Cynghorydd Gill German (GG) – Aelod Arweiniol Addysg, Bethan Fell (BF) – y Gwernant, Sian Alwen (SA - Ysgol Glan Clwyd) |
| **Rhai nad ydynt yn aelodau** | Craig Joyce (CAJ) - Rheolwr Cyllido Ysgolion, Cathy Howatson (CH) (Nodiadau), Steve Gadd (SGADD) - Pennaeth Cyllid |
| **Ymddiheuriadau** | Geraint Davies (Pennaeth Addysg), Trefor Jones (Brynhyfryd), Leah Crimes (Santes Ffraid), Rona Jones (Emmanuel) |

## 1. Croeso

Croesawyd y grŵp gan Lindsey Davenport.

**Roedd 12 aelod yn bresennol yn y cyfarfod i sicrhau cworwm.**

## 2. Materion yn codi a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Materion yn codi. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf gan y fforwm.

## 3. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gyllideb 2024/25 – Steve Gadd

Mynychodd SG y cyfarfod. Mae ansicrwydd ynghylch y cyllidebau, ac rydym yn rhagweld diffyg sylweddol ar gyfer 24/25.

Derbynion ni setliad gwell na'r disgwyl yn 23/24 ar 8.2%. Gallai CSDd edrych ar bwysau o hyd at £37 miliwn yn y flwyddyn ariannol nesaf.

## Y Fforwm Cyllideb Ysgolion

Roedd y cynnig cyflog ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon yn uwch na beth roeddem wedi'i nodi yn y gyllideb.
Mae costau ynni wedi cynyddu'n sylweddol, a byddwn yn eu monitro'n agos ar gyfer ysgolion ac yn defnyddio data o gwmpas mis Medi ar gyfer darlun gwirioneddol o'r costau cyfredol.

Ni ffactorwyd costau uchel o fewn gwasanaethau oedolion a phlant, na'r costau hyn.

Gallai'r pwysau ar gyfer 24/25 gynnwys demograffeg, cynnydd i gyflogau, costau ynni, gwasanaethau plant a chymdeithasol.

Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar gyfer cyflogau staff nad ydynt yn athrawon ar hyn o bryd. Gall fod newidiadau sylweddol yn y graddfeydd cyflog oherwydd cyfyngiad yn y bwlch rhwng graddfeydd, oherwydd dyfarniad arfaethedig cyfandaliad arall. Bydd angen cynnal darn o waith yn ymwneud â hyn.

Bydd ffactorau allanol yn ymwneud â chwyddiant, etholiadau, grantiau cynnal refeniw, ac ati.
Mae ysgolion wedi gwneud cais am 1%. Nid oes unrhyw benderfyniadau wedi cael eu gwneud i ysgolion ar hyn o bryd.

Bu cais i Benaethiaid Gwasanaeth gynnal darn o waith ar gyfer syniadau ynghylch pa arbedion y gellir eu gwneud. Caiff 'rhain eu cyflwyno i'r Cabinet erbyn 14 Mai. Bydd SG yn siarad â Geraint Davies ynghylch ysgolion.

Mae SG wedi llunio dogfen ar gyfer y Cabinet - bydd CH yn ei rhannu gyda'r fforwm cyn y cyfarfod.
Gofynnodd CA a oedd Hamdden wedi cael cais i wneud arbedion hefyd, neu a fydd effaith ddwbl i ysgolion? Cadarnhaodd SG eu bod wedi. Mae angen i ni edrych ar y CLG ac effeithiau costau ynni. Bydd y ffioedd rheoli'n cael eu trafod yn y Tîm Gweithredol Corfforaethol.

Cynnig cyflogau athrawon - rydym wedi derbyn cyllid grant i dalu am hyn, ond ar y cam hwn, nid ydym yn sicr os yw'n ddigon. Byddwn yn gwybod ym mis Mai a chael eglurder i wneud penderfyniad gyda chyflogau mis Mai.

Mae CA yn teimlo os yw ysgolion yn cael cais i wneud arbedion, y gweithgareddau allgyrsiol sy'n cefnogi plant diamddiffyn fydd y cyntaf i gael eu heffeithio. Gofynnodd a fyddai cynrychiolydd yn gallu dod i'r Cyngor. Bydd SG yn siarad â GD. Bydd yn cael ei ychwanegu i raglen Penaethiaid uwchradd gan MH.

**CAM GWEITHREDU – CH i rannu dogfennau cabinet**

## 4. Cadarnhau Cyllidebau Ysgolion

CAJ - Nid ydym wedi derbyn unrhyw wybodaeth gant eto, ac nid yw'r dyraniad Ôl-16 yn derfynol. Cytunodd y fforwm i gadarnhau cyllidebau ysgolion, gan gynnwys dyraniadau'r cyfnod sylfaen o 2022/23.

# Y Fforwm Cyllideb Ysgolion

## 5. Grantiau

Mae Chris Speed wedi gadael ei swydd a bydd Daisy Pierce yn ei ddisodli. Paul Senior sydd nawr yn rheoli grantiau, ond nid yw'n gallu mynychu heddiw.

Bydd Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) yn cael ei rannu gyda Rheolwyr B&F.  Mae ymholiadau ynghylch rhai o'r dyraniadau Prydau Ysgol am Ddim, y cyfansymiau a'r amddiffyn wrth bontio. Bydd unrhyw bryderon yn cael eu hanfon i PS.

Cyn gynted ag y byddwn yn clywed am y dyraniadau, byddwn yn rhoi gwybod i ysgolion.

## 6. Cynlluniau Cyfun

Rhannodd CH adroddiad yn ymwneud â gorwariant cynlluniau cyfun. Mae wedi dyblu eleni i oddeutu £400 mil.

Mae rhai dewisiadau i'w trafod - ychwanegu rhagor o gynlluniau, newid meini prawf salwch?

Bydd gweithgor yn cwrdd i drafod ymhellach ac adrodd yn ôl i'r FfCY.

Gwirfoddolwyr - MH, LD, HV, RO - byddwn yn trafod gyda'r rheolwyr ariannol ac yn gofyn am 2 gynrychiolydd ychwanegol.

Gofynnodd NF bod y gorwariant yn cael ei astudio ar gyfer y 5 mlynedd diwethaf.

Gofynnodd LD a fyddai posib rhoi hyfforddiant mewnbynnu data i dîm gweinyddol ysgolion bach.

**CAM GWEITHREDU - CH i anfon gwahoddiad electronig i'r is-grŵp.**

## 7. Diweddariad Ysgolion mewn Trafferthion Ariannol a Balansau Ysgolion

Casglwyd balansau 3 mlynedd ysgolion.  Cariodd ysgolion £9 miliwn i 2023/24 gyda 3 ysgol mewn dyled.

Erbyn diwedd mis Mawrth 2024, rydym yn edrych ar 17 ysgol mewn dyled, ond gydag ychydig o waith, gall hyn leihau o 14. Mae CH yn cwrdd ag ysgolion i fynd drwy broses SIFD.

## 8. Materion Clwstwr

CA - mae'n bwysig ystyried anghenion disgyblion wrth drafod unrhyw arbedion. Bydd y Cynghorydd GG yn cefnogi ysgolion yn y Cabinet, a bydd yn trafod gyda GD i drafod pryderon. Mae pob clwstwr yn mynd i gyflwyno trosolwg o'r ddarpariaeth anstatudol, a bydd Claire Armistead yn eu casglu.

Cytunodd NF y bydd gwaith anstatudol ar gyfer disgyblion yn cael ei effeithio.

## Y Fforwm Cyllideb Ysgolion

Bydd hyn yn cael ei gadw fel eitem ar raglen y fforwm.

### 9. Unrhyw Fater Arall

Cyllidebau - mae pwysau ar y cyngor bob blwyddyn, ac mae cyllidebau'n dynn.  Mae NN a NG yn teimlo ei fod yn annod gosod cyllidebau pan nad ydych yn gwybod beth sy'n cael ei ddyrannu i ysgolion, a'r gofyn i osod cyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfan.

Roedd LD eisiau diolch i Mari Gaskell sy'n gadael y sir ar ddiwedd y mis, am yr help roedd hi wedi ei roi i ysgolion.

**Daeth y cyfarfod i ben am 10.52am**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – Dydd Llun, 3 Gorffennaf, 2023 - Teams**